

# Glanhau a newid tiwbiau tenau ar gyfer danalogic Actio

**Glanhau**


Yn gyntaf, gallwch rwbio’r tiwb tenau a'r gromen â chadach llaith. Os yw'r tiwb tenau yn llawn cŵyr neu falurion eraill, tynnwch ef allan o'r cymorth clyw yn ofalus drwy dynnu’r tiwb cyfan oddi ar y cymorth clyw.



1. Nesaf, tynnwch y gromen drwy ei thynnu oddi ar y pen rhesog.




2. Nawr, gwthiwch y weiren lanhau drwy ben uchaf y tiwb tenau yn y man lle mae'n cysylltu â’r cymorth clyw. Bwydwch y weiren lanhau yr holl ffordd drwodd er mwyn cael gwared ar unrhyw falurion yn gyfan gwbl.




3. Nawr, gwthiwch y gromen yn ôl ar ben y tiwb tenau.

## Glanhau a newid tiwbiau tenau ar gyfer danalogic Actio (parhad)



4. Gwnewch yn siŵr bod y gromen yn ei lle yn gadarn drwy godi rhan isaf y gromen yn ofalus, ac edrych i weld bod y goler yn gorchuddio pen rhesog y tiwb tenau yn llwyr.



5. Yn olaf, gwthiwch y tiwb tenau yn ôl ar y cymorth clyw nes iddo glicio'n gadarn i'w le.

**Newid**

Os bydd angen i chi newid eich tiwb tenau, tynnwch y tiwb cyfan oddi ar eich cymorth clyw a gosodwch un newydd yn ei le, gan sicrhau ei fod yn clicio'n gadarn i'w le. Dilynwch y cyfarwyddiadau uchod i sicrhau bod cromen newydd yn cael ei gosod ar ben eich tiwb tenau newydd.

I gael rhagor o gymorth, sganiwch y cod QR neu ewch i'n porth cymorth i gleifion yn: **danalogic.co.uk/patient-portal**